Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyfarfod y Cabinet: 11 Rhagfyr 2023

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet ar 11 Rhagfyr 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 25 Ionawr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 25 Ionawr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Yn bresennol

Cyfarfodydd blaenorol

Eitemau'r Prif Weinidog

Busnes y Senedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Yn bresennol

- Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS (Cadeirydd)
- Rebecca Evans AS
- Vaughan Gething AS
- Lesley Griffiths AS
- Jane Hutt AS
- Julie James AS
- Jeremy Miles AS
- Eluned Morgan AS
- Mick Antoniw AS
- Hannah Blythyn AS
- Dawn Bowden AS
- Julie Morgan AS
- Lynne Neagle AS

### Ymddiheuriadau

- Lee Waters AS

### Swyddogion

- Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol
- Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog
- Rebecca Dunn, Pennaeth Is-adran y Cabinet
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
- Alex Bevan, Cynghorydd Arbennig
- Daniel Butler, Cynghorydd Arbennig

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Ian Butler, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Sara Faye, Cynghorydd Arbennig
- Sam Hadley, Cynghorydd Arbennig
- David Hooson, Cynghorydd Arbennig
- Clare Jenkins, Cynghorydd Arbennig
- Owen John, Cynghorydd Arbennig
- Phillipa Marsden, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Christopher W Morgan, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Catrin Sully, Swyddfa'r Cabinet
- Kathryn Hallett, Swyddfa'r Prif Weinidog
- Helena Bird, Swyddfa'r Ysgrifennydd Parhaol
- Helen Lentle, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol
- Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
- Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adfer wedi COVID a Llywodraeth Leol
- Tim Moss, Prif Swyddog Gweithredu
- Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad
- Rachel Garside-Jones, Cyfarwyddwr, Uned y Cytundeb Cydweithio (eitem 5)

# Eitem 1: Cofnodion y Cyfarfod blaenorol

1.1 Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 30

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Tachwedd a 4 Rhagfyr.

# Eitem 2: Eitemau'r Prif Weinidog

## Ffydd mewn Teuluoedd

2.1 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet ei fod wedi ymweld â Cwtch Mawr yn Abertawe y dydd Iau blaenorol, sef Aml-fanc cyntaf Cymru a sefydlwyd gan Ffydd mewn Teuluoedd. Cafodd y fenter ei modelu ar Aml-fanc a sefydlwyd yn Fife gyda chefnogaeth y cyn-Brif Weinidog, Gordon Brown. Roedd Ffydd mewn Teuluoedd yn gweithio gydag Amazon a manwerthwyr eraill i ddosbarthu nwyddau dros ben am ddim i bobl nad oeddent yn gallu eu fforddio.

2.2 Roedd y Llywodraeth wedi bod yn gweithio gyda Ffydd mewn Teuluoedd ar y prosiect hwn ers peth amser ac roedd wedi darparu cymorth ariannol cymedrol yn ddiweddar. Roedd yn bosibl iawn y gellid efelychu'r fenter mewn mannau eraill, gan ei bod yn helpu i gefnogi uchelgeisiau'r Llywodraeth a nodwyd yn y Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig. Byddai'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip yn lansio Cwtch Mawr yn ffurfiol ganol mis Ionawr.

## Yr Ymchwiliad COVID-19

2.3 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet y byddai Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 yn rhoi diweddariad ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru y diwrnod canlynol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyfarfod ag Arweinwyr Mosgiau

2.4 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet y byddai ef a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip yn cyfarfod ag arweinwyr Mosgiau ar ddydd Mercher yr wythnos honno.

## Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

2.5 Cofnododd y Prif Weinidog ei fod ef a'r Cabinet yn diolch i Helen Lentle, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, a oedd yn ymddeol o Lywodraeth Cymru.

# Eitem 3: Busnes y Senedd

3.1 Nododd y Cabinet y bu un newid i Grid y Cyfarfodydd Llawn a oedd wedi'i ddosbarthu gyda'r papurau, sef bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi newid pwnc ei datganiad llafar i fod yn ddiweddariad ar Wasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Roedd amser pleidleisio wedi'i drefnu ar gyfer 5.10pm ddydd Mawrth a thua 6.25pm ddydd Mercher. Nid oedd dadl fer yr wythnos honno.

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
Rhagfyr 2023

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.